Mae myfyriwr yn dod yn atebol am ganran o'r ffi ddysgu cyn gynted ag y bydd yn ymrestru. Mae atebolrwydd yn gymwys o ddechrau'r pwynt cymeriant perthnasol., hyd yn oed os yw'r myfyriwr yn ymrestru yn hwyrach na yr dyddiad yma.. Mae'r pythefnos cyfnod ailfeddwl yn dechrau o'r pwynt ymrestru, os yw myfyriwr yn tynnu'n ôl o fewn yr amser hwn nid yw yn atebol am unrhyw ffioedd.

Pennir yr atebolrwydd am y ffi lawn fesul cam. Os bydd myfyriwr yn ymrestru, ond yn penderfynu wedyn nad y Brifysgol yw'r peth iddo/iddi neu mae angen iddo/iddi tynnu'n ôl/atal yr astudiaethau, yna gall cyfran o'r ffi fod yn daladwy yn dibynnu ar y dyddiad o tynnu'n ôl/atal yr astudiaethau

**Mae'r dyddiad gadael yn eithriadol o bwysig:**

| | **Myfyriwr yn gadael rhwng** | | |
|---|---|---|---|
| **Dechreuwr Medi** | **Dechrau** | **Diwedd** | **% ffi yn ddyledus** |
| Pythefnod ailfeddwl | 26/09/2023 | 09/10/2023 | 0% |
| Rhwymedigiaeth 1 | 10/10/2023 | 08/01/2024 | 25% |
| Rhwymedigiaeth 2 | 09/01/2024 | 16/04/2024 | 50% |
| Rhwymedigiaeth 3 | 17/04/2024 | | 100% |

| **Dechreuwr Mawrth** | **Dechrau** | **Diwedd** | **% ffi yn ddyledus** |
|---|---|---|---|
| Pythefnod ailfeddwl | 13/03/2024 | 26/03/2024 | 0% |
| Rhwymedigiaeth 1 | 27/03/2024 | 25/06/2024 | 25% |
| Rhwymedigiaeth 2 | 26/06/2024 | 02/10/2024 | 50% |
| Rhwymedigiaeth 3 | 03/10/2024 | | 100% |

Bydd myfyriwr sydd wedi dechrau o fewn pwyntiau cymeriant perthnasol gwahanol yn ddarostyngedig i yr un pwyntiau atebol.

**Bydd ffioedd dysgu yn parhau'n ddyledus tan y dyddiad y bydd y Brifysgol yn derbyn ffurflen tynnu'n ôl o'r brifysgol/atal prifysgol wedi'i llenwi'n gywir ac sydd wedi'i llofnodi gan y gyfadran academaidd y mae'r myfyriwr yn astudio ynddi. Fel arfer, ni fydd tynnu'n ôl/ gwaharddiadau ôl-weithredol yn cael eu hawdurdodi. Dylai myfyrwyr gyfeirio at Bolisi Ymgysylltiad Academaidd Myfyrwyr y Brifysgol.**

**NODER OS BYDDWCH YN RHOI'R GORAU I FOD YN BRESENNOL BYDD EICH FFI YN DDYLEDUS O HYD ONI BAI FOD GWEITHDREFNAU FFURFIOL WEDI'U DILYN**

***Mae'n rhaid cyflwyno tystiolaeth i ddangos bwriad gwreiddiol y myfyriwr i dynnu'n ôl ar y dyddiad a nodir.*** **Mae'n rhaid i fyfyrwyr lenwi ffurflen tynnu yn ôl ym mhob achos.**

**Sylwer bod ad-dalu unrhyw ffioedd dysgu yn ôl disgresiwn y Brifysgol. Ystyrir ad-daliadau dim ond pan fydd y myfyriwr yn gofyn am dynnu yn ôl ag dim pan fydd yn ofynnol i'r myfyriwr tynnu'n ôl, er enghraifft oherwydd fod myfyriwr wedi torri gweithdrefn ymddygiad myfyrwyr neu'r Telerau ac Amodau'r cynnig.**

